# 3. DYDD MAWRTH - DYDD Y DADLAU

**Darllen:** Marc 11: 20-26;
Mathew 21: 23-36;
Luc 20: 1-21: 3

Gyda'r hwyr ar y Dydd Llun hwnnw, dychwelodd Iesu a'i gyfeillion i Fethania, gan ddod yn ôl i Jerwsalem fore trannoeth ar hyd yr un ffordd. '*Gwelsant y ffigysbren wedi crino o'r gwraidd. Cofiodd Pedr, a dywedodd wrtho, 'Rabi, edrych, y mae'r ffigysbren a felltithiaist wedi crino.' Atebodd Iesu hwy, "Bydded gennych ffydd yn Nuw; yn wir, rwy'n dweud wrthych, pwy bynnag a ddywed wrth y mynydd hwn, 'Coder di, a bwrier i'r môr, heb amau yn ei galon, ond credu y digwydd yr hyn a ddywed, fe'i rhoddir iddo"* (Marc 11: 20-23). Sylwch, '*y mynydd hwn'*! Ni ddywedodd y gall ffydd symud yr holl fynyddoedd, ond '*y mynydd hwn'*. Edrychodd i lawr ar Fynydd Moria o ben Mynydd yr Olewydd wrth iddo ddweud hyn – Mynydd Moria, lle safodd y Deml, "*ty^ gweddi i'r holl genhedloedd*" oedd wedi ei droi i fod yn "*ogof lladron*". Byddai gan ffydd y nerth i symud y goeden hon, sy'n hollol ddiffrwyth, er bod ei dail yn chwifio'n braf. Yn wir, y dail gogoneddus hyn oedd yn gyfrifol am rwystro'r Iddewon a'r cenedl-ddynion fel ei gilydd, rhag gweld Duw a'u cymdogion a'u hunain yn ei oleuni. Ffug grefydd oedd yma. Gwaith Iesu oedd symud y mynydd hwn, sef y meini tramgwydd a oedd yn cuddio Duw - balchder ysbrydol, rhagrith, creulondeb, trachwant, ecsploetio - gan gyflawni addewid Eseia 40: 4-5: "*Caiff bob pant ei godi, pob mynydd a bryn ei ostwng, gwneir y tir ysgithrog yn llyfn, a'r tir anwastad yn wastadedd. Datguddir gogoniant yr Arglwydd, a phawb ynghyd yn ei weld. Genau'r Arglwydd a lefarodd.*" Siaradodd am ffydd, gweddi a maddau, a'r gair olaf yw MADDAU. Roedd fwy o sialens iddynt hwy a ninnau yn y gair hwn na hyd yn oed symud mynyddoedd. Hyn sy'n ganolog i'w waith a'i hunanaberth, canys ef ei hun yw'r sianel sy'n galluogi cariad Duw i lifo allan i'r byd.

Yn draddodiadol, gelwir Dydd Mawrth yr 'Wythnos Fawr', naill ai'n 'Ddydd y Dysgu' neu 'Dydd yr Holi'; mae 'Dydd yr Ornest' a 'Dydd y Dadlau' yr un mor dderbyniol. Dywedodd Iesu ar ddechrau ei weinidogaeth: "*Gwyn eu byd y rhai a erlidiwyd yn achos cyfiawnder, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd"* (Mathew 5: 10). Ar y dydd hwn y gwireddwyd ei eiriau.

**Darllen:** Marc 11: 27 – 12: 37;
Mathew 21: 27-26: 46;
Luc 20: 1-38;
Ioan

Diwrnod o wrthdaro oedd y Dydd Mawrth i Iesu wrth iddo ddychwelyd i Deml Jerwsalem am y tro olaf. Yr hyn a wnaeth ar y Dydd Mawrth oedd defnyddio'r ffigysbren diffrwyth i ddatgelu gwir gyflwr y Deml a'i chrefydd. Daeth Iesu at y man dysgu arferol ar y grisiau tu allan i Borth Huldah o'r Deml (mae adfeilion y porth a'r grisiau mewn cyflwr da hyd heddiw). Y tu mewn i Borth Huldah yr oedd Llys y Cenedl-ddynion, lle cynhelid marchnad y Deml; yno y creodd Iesu lanast y diwrnod blaenorol. Yn ôl Marc, bu Iesu'n dysgu ac yn iachau a'r bobl gyffredin yn gwrando arno'n llawen, ond ni rannodd eu harweinwyr mo'u llawenydd. Daeth y *"prif offeiriaid a'r ysgrifenyddion a'r henuriaid*" ato, sef prif awdurdodau pwysicaf y genedl, i'w herio ar fater awdurdod. Roedd gan yr Offeiriaid awdurdod dros holl fywyd y Deml, ei haberthu a'i haddoliad. Roedd gan yr Ysgrifenyddion awdurdod dros bopeth yn ymwneud â Deddf Moses a bywyd y bobl. Yr Henuriaid oedd ag awdurdod dros fywyd cymunedol y bobl. *"Trwy ba awdurdod yr wyt ti'n gwneud y pethau hyn?" Hynny yw, "Pwy wyt ti'n meddwl wyt ti?" Pwy roddodd i ti'r hawl i daflu allan y cyfnewidwyr arian a'r gwerthwyr aberthau, sy'n cael eu cyflogi gan neb llai na'r Archoffeiriaid, gan aflonyddu ar rediad llyfn y lle hwn. Pwy wyt ti i feiddio galw Sanctaidd Dw'r Arglwydd yn ogof lladron? O ba le y cefaist awdurdod i ddefnyddio'r Ysgrythurau Sanctaidd mewn ffordd mor annerbyniol? Trwy ba awdurdod wyt ti'n gweithredu a siarad fel hyn? Rwyt ti'n gosod dy hun yn uwch na gweision y Gyfraith a'r Deml ac yn troi'r bobl oddi wrth eu hufudd-dod i'w Henuriaid. Dim ond y Meseia ei hun all wneud y pethau rwyt ti'n eu gwneud!*

Mae gan Deuteronomium 13: 1-5 grynodeb o'u cyfrifoldebau: "*Os cyfyd yn eich plith broffwyd neu un yn cael breuddwydion, a rhoi i chwi arwydd neu argoel, a hynny digwydd fel y dywedodd wrthych, ac yntau wedyn yn eich annog i fynd ac addoli duwiau estron nad ydych yn eu hadnabod, nid ydych i wrando ar eiriau'r proffwyd neu'r breuddwydiwr hwnnw, oherwydd eich profi chwi y mae yr Arglwydd eich Duw i gael gwybod a ydych yn ei garu â'ch holl galon ac â'ch holl enaid. Yr ydych*

*i ddilyn yr Arglwydd eich Duw a'i ofni, gan gadw ei orchmynion a gwrando ar ei lais, a'i wasanaethu ef a glynu wrtho. Rhaid rhoi'r proffwyd neu'r breuddwydiwr hwnnw i farwolaeth am iddo geisio'ch troi oddi ar y llwybr y gorchymynnodd yr Arglwydd eich Duw i chwi ei ddilyn…"* Felly, cydnabuwyd nad oedd gwyrthiau ar eu pennau eu hunain yn dderbyniol fel arwyddion o allu ac awdurdod. Rhaid i eiriau a gweithredoedd proffwyd gydymffurfio â ffydd yn Nuw Israel. Cyfrifoldeb y ddirprwyaeth yn ôl y Ddeddf oedd dod i'w holi. Ond ei farnwyr oedd y rhai a ymadawodd â ffordd y Duw a ddaeth â hwy allan o'r Aifft, megis pan ddaeth ei Eneiniog atynt, ni adnabuasent ef ac ni chroesawyd ef i'w plith.

"*Trwy ba awdurdod yr wyt ti'n gwneud y pethau hyn*?" Atebodd Iesu trwy ofyn cwestiwn arall: "*Bedydd Ioan, ai o'r nef yr oedd, ai o ddynion?"* Nid osgoi ateb oedd ei fwriad ond mynd at wraidd y mater. Roedd y bobl yn parchu Ioan Fedyddiwr fel gwir broffwyd a chyfeiriodd Ioan at Iesu fel y Meseia. Felly, os oedd y Bedyddiwr yn broffwyd wedi ei ddanfon gan Dduw, rhaid mai Iesu oedd y Meseia, a dylai pawb ufuddhau i'w awdurdod. Ceisiodd y ddirprwyaeth osgoi'r cwestiwn drwy ateb: "*Ni wyddom ni ddim";* ond, eu cyfrifoldeb oedd gwybod. Dyna holl bwrpas bodolaeth eu swyddi fel rhai ag awdurdod dros y Deml a'r Gyfraith a'r bobl. Yr hyn a wnaethant wrth iddynt geisio dod yn rhydd o'u cyfyng-gyngor, oedd ildio eu cyfrifoldeb a'u hawdurdod i rywun arall. Llwyddodd Iesu i alw eu blóff. Chwifio dail a wnaeth arweinwyr crefydd er nad oedd ganddynt unrhyw ffrwyth. Aeth y rownd gyntaf o'r ornest i Iesu o Nasareth!

Aeth Iesu ymlaen i ddysgu trwy ddamhegion. Un ddameg yn unig sydd gan Marc, sef 'Dameg y Winllan a'r Tenantiaid', tra bod yr efengylau eraill yn cynnwys nifer o ddamhegion eraill. Cynhaeaf a lladrad yw testun 'Dameg y Winllan a'r Tenantiaid', gan ymwneud ag awdurdod a chyfrifoldeb. Wedi i ddyn blannu gwinllan a chodi clawdd o'i chwmpas, fe'i gosododd hi i denantiaid. Penderfynodd y tenantiaid wrthod talu'r rhent adeg y cynhaeaf. Amarchasant weision y perchennog, gan guro rhai a lladd eraill. Yn y diwedd, danfonodd y perchennog ei unig fab gan ddisgwyl iddynt ei barchu ef ond yn lle hynny, penderfynodd y tenantiaid ei ladd yntau hefyd er mwyn sicrhau'r winllan iddynt hwy eu hunain. Cyhuddodd Iesu'r awdurdodau o geisio twyllo Duw a dwyn ei eiddo. Oni ddywedodd y proffwyd Malachi wrth y bobl: "*A dwylla dyn Dduw? Eto yr ydych yn fy nhwyllo i"* (Malachi 3: 8).

Dehongli hanes oedd pwrpas Iesu yma, i ddangos iddynt fod eu hanes fel cenedl yn gyfres o ddatguddiadau cynyddol a gwrthodiadau esgynnol. Cafodd y proffwydi eu cam-drin hyd at Ioan Fedyddiwr a chafodd ef ei ladd. Pwy felly oedd mab perchennog y winllan? Hawliodd Iesu'r enw a'r statws iddo'i hun. Nid dyma'r tro cyntaf iddo ddefnyddio dameg i ateb cwestiwn, ond wrth iddo wneud hynny yn awr, fe roddodd ei dynged yn eu dwylo hwy. Ef oedd y Mab y soniodd y ddameg amdano, a hwythau, stiwardiaid gwinllan Duw, yn bwriadu ei ladd. Ef oedd yr iachawdwriaeth yr oeddent am ei wrthod, eu gwaredigaeth hwy a ninnau. Cynlluniasant i gyflawni'r lladrad mwyaf posibl, sef dwyn eiddo Duw, ac i wneud hynny, rhaid lladd y Meseia. Roeddent ar fin pechu yn y ffordd fwyaf eithafol, trwy ddewis gwrthryfela yn erbyn Duw. Pobl Dduw oedd yma yn ymwrthod â Duw er mwyn cymryd yr hyn sy'n eiddo iddo. Pechod oedd yma, ar fin llwyddo i bob golwg. Ond, cyhoeddodd Iesu yn ei ddameg, mai amhosibl oedd iddynt lwyddo yn erbyn Duw. Colli'r frwydr fyddai'r tenantiaid gyda'r Winllan yn cael ei throsglwyddo i bobl eraill. A chan fod gweision dewisedig Duw yn gwrthod ufuddhau, rhaid troi i rywle arall i sicrhau bod bwriadau Duw yn cael eu cyflawni. Oni fu hyn yn wir ymhob oes – y tu mewn i Iddewiaeth a Christnogaeth fel ei gilydd? Os felly, mewn hanes, onid yw'n wir hefyd heddiw? Mae Barn yn digwydd o flaen ein llygaid. Disgleiria'r Goleuni'n llachar heddiw a phob Duw mor aml yn dewis y tywyllwch. Defnyddiodd Iesu adnodau o Salm 118: 22 fel diweddglo: "*Y maen a wrthododd yr adeiladwyr, hwn a ddaeth yn faen y gongl; gan yr Arglwydd y gwnaethpwyd hyn, ac y mae'n rhyfeddol yn ein golwg ni."*

Mae'r ffaith i'r geiriau hyn gael eu dyfynnu mor aml yn Llyfr yr Actau, y Llythyrau at y Rhufeiniaid a'r Effesiaid ac yn Epistolau Pedr, yn dangos sut yr aeth yr olygfa hon a'r geiriau hyn yn ddwfn iawn i gof, calon a meddwl y disgyblion a oedd yno yn gwrando. Dynion yn dal yr awdurdod a ddaeth ato i'w herio ac Iesu'n troi'r her yn ôl arnynt. Rhaid iddynt hwy a phawb arall, naill ai edifarhau ac ufuddhau neu geisio ei ddistewi. Eu dewis hwythau oedd gweiddi '*Croeshoelia ef'*. Ffurfiodd yr hen elynion hyn, sef y Sadwceaid, y Phariseaid a'r Herodiaid, glymblaid er mwyn cael gwared ag un a oedd yn fygythiad i bob un ohonynt, ac y mae yna le i feddwl bod y Selotiaid hefyd yn eu cefnogi. Gwireddwyd y ddameg gan eu cynllwynio hwy a'i hunanaberth ef. Wrth iddynt gynllunio i ddod

ag ef i farn, profodd ei achos yn eu herbyn, a thrwy hynny y sicrhawyd gobaith i'r holl fyd.

**Darllen:** Marc 12: 13-44

Bwriad yr awdurdodau yn eu dicter oedd ei ddal, ond oherwydd eu hofnau, rhaid iddynt aros am gyfle am fod y dorf, i bob golwg, o'i blaid. Penderfynwyd gohirio ei ddal dros dro, ond yn y cyfamser, dechreuwyd ail-ymosod arno gan aelodau o'r glymblaid newydd.

'Plaid y Deml' oedd y Sadwceaid, sef y teuluoedd offeiriadol, aristocrataidd, yn casáu Rhufain ond yn barod i gydweithio â'r ymerodraeth er mwyn sicrhau heddwch i'r bobl a chadw eu safle eu hunain yn y wlad. 'Plaid y Ddeddf' oedd y Phariseaid, plaid y werin dduwiol a'u harweinwyr, yn ysgrifenyddion neu esbonwyr y Ddeddf, a'u henuriaid yn gul eu meddwl ac yn awyddus i gadw rheolaeth ar bob agwedd o fywyd y bobl. Teulu Herod a'i ddilynwyr oedd yr Herodiaid, yn dal awdurdod dros eu breniniaethau yn enw Rhufain, a chanddynt awydd i ddod â syniadau ac arferion Groegaidd i fywyd a chrefydd Israel. Mudiad cudd, treisgar oedd y Selotiaid yn barod i ennill rhyddid i'w cenedl drwy ymladd. Y mae yna le i feddwl bod Barabbas yn aelod a Jwdas Iscariot yn gyn-aelod. Anghytunai'r pleidiau hyn ar nifer o faterion holl bwysig, gan gynnwys person y Meseia a sut i baratoi ei ffordd, sut i wasanaethu Duw, y bywyd tragwyddol, a sut i ymateb i'r diwylliant Groeg-rufeinig ac i lywodraeth Rhufain. Danfonwyd cynrychiolwyr o bob un o'r tair plaid gyntaf ato yn eu tro i geisio ei ddal trwy ofyn cwestiwn anodd, er mwyn iddo gondemnio ei hun yng ngolwg un blaid neu'r llall.

Daeth dirprwyaeth o Phariseaid ac Herodiaid ato gyda'u cwestiwn: "*A yw'n gyfreithlon i dalu treth i Cesar, ai nid yw?"* Cwestiwn cyfrwys iawn: byddai dweud 'Ie' yn fflamychu'r Phariseaid, gan roi iddynt gyfle i'w gondemnio gerbron y bobl fel bradwr i'w genedl, tra byddai ateb negyddol yn agor drws i'r Herodiaid fynd at Pilat i'w gyhuddo o gynllwynio yn erbyn yr ymerodraeth. Unwaith yn rhagor, defnyddiodd Iesu gwestiwn fel ateb i'w holwyr, gan ofyn am fenthyg denariws a holi: "*Llun ac arysgrif pwy sydd yma?"* Dywedasant wrtho, '*Cesar*'. A dywedodd Iesu wrthynt: "*Talwch bethau Cesar i Gesar a phethau Duw i Dduw. Nid fy mhroblem i mo' hon ond eich problem chwi."*

Yn wyneb methiant y ddwy blaid arall, aeth grup o Sadwceaid i faes y gad. Daeth y sinigiaeth a oedd yn nodweddiadol ohonynt i'r golwg yn eu cwestiwn am wraig yn priodi saith o frodyr, a phob un yn marw. "*Yn yr atgyfodiad, pan atgyfodant, gwraig prun fydd hi?*" Ni chredent mewn atgyfodiad; athrawiaeth o bwys i'r Phariseaid. Cwestiwn am briodas lefiraidd sydd ganddynt, sef cyfrifoldeb Iddew wrth i'w frawd farw heb blant, i gymryd y weddw fel gwraig er mwyn [6] cael meibion i gadw enw'r brawd a fu farw yn fyw. Saith brawd sydd yn eu stori, a phob un wedi priodi'r un wraig: "*gwraig pwy yw hi yn y nefoedd?*" Yr oedd yn dda gan y Sadwceiaid gael cyfle gwych i osod Iesu mewn picil gan ei fod yn rhwym o beri tramgwydd i'r naill blaid neu'r llall, a dangos i bawb yr un pryd eu bod hwy yn fwy clyfar na'r Phariseaid a'r Herodiaid. Darluniodd y Sadwceiad a'r Phariseaid y nefoedd yn nhermau'r ddaear a chawsant eu beirniadu am hyn gan Iesu. Wrth symud ymlaen i ateb eu cwestiwn, wynebodd Iesu'r Sadwceaid ar eu tir eu hunain. Dim ond pum llyfr cyntaf y Beibl oedd yn dderbyniol i'r Sadwceaid fel Ysgrythur ac yno yr aeth Iesu i gael ei ateb, gan ddyfynnu Exodus 3: 6: "*ond ynglŷn â bod y meirw yn codi, onid ydych wedi darllen yn Llyfr Moses, yn hanes y Berth, sut y dywedodd Duw wrtho, Myfi, Duw Abraham a Duw Isaac a Duw Jacob ydwyf? Nid Duw'r meirw yw ef, ond y rhai byw. Yr ydych ymhell ar gyfeiliorn*" (Marc 12: 26-27).

Un o'r ysgrifenyddion (dehonglwyr y Gyfraith) oedd y nesaf. Cafwyd tinc gwahanol yn llais hwn wrth iddo ofyn, "*Prun yw'r gorchymyn cyntaf?*" Trodd Iesu at faes ei holwr am ateb, sef y gyfraith, at y 'Shema'[7], y datganiad mawr o ras Duw sy'n sefyll fel rhagymadrodd hollbwysig y Deg Gorchymyn: "*Y cyntaf yw, Gwrando, O Israel, y mae'r Arglwydd ein Duw yn un Arglwydd, a châr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl nerth. Yr ail yw hwn, Câr dy gymydog fel ti dy hun.*" Nid oes enghraifft ar gael o athro arall yn cyplysu dau orchymyn mawr fel hyn; Iesu oedd y cyntaf i wneud hynny. Cytunodd yr holwr yn wresog gydag ef ac ychwanegodd Iesu: "*Nid wyt ymhell oddi wrth deyrnas Dduw. Ac ni feiddiai neb ei holi ddim mwy.*" Nid oedd yn bosibl iddynt ddweud dim.

**Gweddi:**